

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 14 Medi 2020 am 7:00pm trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape, Mike van der Eijk a Heather Williams.

90. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson.

91. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

92. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020 yn gywir.*

93. MATERION YN CODI

Rhannodd y Cadeirydd ddiweddiariad ynghylch y mesurau Covid-19 a Theithio Egnïol i'w cyflwyno yn Rhuthun. Byddai'r gwaith i lunio system traffig un ffordd a chael ardaloedd eistedd y tu allan yn dechrau ym mis Hydref.

94. CYFLWYNIAD YNGHYLCH BWYD BENDIGEDIG

Croesawodd y Cadeirydd Wendy Nulty i'r cyfarfod a diolchodd iddi am yr wybodaeth a rannwyd gyda'r aelodau fel rhan o bapurau'r cyfarfod. Amlinellodd gefndir y rhwydwaith a'i nod, gan nodi fod y prosiectau agosaf yn Wrecsam a Chonwy. Cadarnhaodd y byddai cynllun Rhuthun yn gweithio ar y cyd gyda Mind Dyffryn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, ac y byddai'n cynnwys ac yn hyrwyddo busnesau lleol. Holodd yr aelodau gwestiynau ynghylch cynnal a chadw'r planhigion, sicrhau na fyddent yn cael eu cymryd cyn eu bod yn barod a'r potensial am fandaliaeth. Cawsant sicrwydd fod profiadau ardaloedd eraill yn dangos fod pobl yn parchus ac yn gwarchod yr ardaloedd wedi'u plannu a'u bod yn annog cynnwys y gymuned.

PENDERFYNWYD: *croesawu a chefnogi'r cynllun arfaethedig.*

95. SIED TRWSIO A RHANNU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y y cynnig ar gyfer Sied Trwiso a Rhannu yn Rhuthun, mewn cydweithrediad gyda Llangollen a'r Wyddgrug, fel yr amlinellwyd yn y papur cefndir. Roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau na fyddai'r Sied yn cystadlu yn erbyn busnesau lleol, a bod pob tref yn cael cyfnod amser cyfartal ar sail cyfraniad ariannol cyfartal, yn hytrach na mwy o amser yn y dref gyda'r boblogaeth fwyaf a holwyd am yr atebolrwydd yswiriant hefyd. Y cyfraniad ariannol a awgrymwyd oedd £1,500 y flwyddyn am dair blynedd.

PENDERFYNWYD: *gofyn am drafod y mater yn y Cyngor llawn a gofyn i'r Cynghorydd Robyn Lovelock siarad ac ateb cwestiynau'r aelodau cyn ystyried a ddylid cyfrannu'n ariannol at y cynllun a chynnig defnyddio gwagle yn yr Hen Lys.*

96. CYNNIG GWEITHDY BEICIAU CYMUNEDOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwybodaeth ynghylch menter gymdeithasol Drosi Bikes yn rhuthun a ddarparwyd gan Beth Ward, a oedd yn sicrhau'r aelodau y byddai'r cynllun yn ategu'r busnes beiciau yn Rhuthun yn hytrach na chystadlu yn ei erbyn.

PENDERFYNWYD: *gofyn i Beth Ward anerch y cyfarfod nesaf i roi rhagor o fanylion.*

97. ADLEOLI'R BASGEDI CROG

Gofynnwyd i'r aelodau a oeddynt yn fodlon ystyried hyn trwy e-bost.

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Clerc yn anfon neges e-bost yn amlinellu lleoliadau addas i'r aelodau eu hystyried erbyn y cyfarfod nesaf.*

98. COEDEN Y LLWYBR CELF

Hysbyswyd yr aelodau fod y goeden Llwybr Celf nesaf at yr arosfan bws ger Neuadd y Sir ar Ffordd y Farchnad wedi marw.

PENDERFYNWYD: *gofyn i arbenigwr coed archwilio'r goeden a darparu cyngor proffesiynol.*

99. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 5 Hydref 2020 am 7pm.*